

Asesiad effaith integredig Llywodraeth Cymru: Hawl genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Y Cynnig

Mae gan y systemau addysg sy'n perfformio orau yn fyd-eang athrawon a staff cynorthwyol egniol, sy'n ennyn diddordeb ac yn ymrwymedig i ddysgu parhaus. Mae'r ymrwymiad hwn i ddysgu proffesiynol, sy'n parhau gydol gyrfa, yn allweddol i ansawdd ac effaith y dysgu a'r addysgu yn y wlad. Yng Nghymru, rydym wedi datblygu dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa i'n gweithlu mewn ysgolion, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, staff cyflenwi ac arweinwyr. Rydym eisiau helpu ymarferwyr yng Nghymru i fod yn ddysgwyr gydol oes sy'n pwysu a mesur ac yn gwella eu harferion eu hunain er mwyn ysbrydoli ac ysgogi plant a phobl ifanc yn eu hysgolion.

Ond, mae'r system addysg wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i bandemig covid-19. Mae angen cryfhau'r ymgysylltu ar draws y system er mwyn gweithredu a chodi ymwybyddiaeth o oblygiadau'r cwricwlwm newydd, y diwygiadau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a thegwch mewn addysg. Felly, rydym yn cydnabod bod angen rhoi cymorth ychwanegol i'r holl ymarferwyr allu gwneud hyn.

Bydd y cwricwlwm newydd yn dechrau cael ei gyflwyno o fis Medi 2022 ymlaen, ynghyd ag ymgynghoriad i ddarparu diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol i ysgolion neu leoliadau bob blwyddyn am y tair blynedd academaidd nesaf. Felly, mae'r Hawl Genedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn un o sawl ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio helpu pob ymarferydd i allu ymgymryd â dysgu proffesiynol a datblygu ei sgiliau, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'n gynnig hirdymor i helpu ymarferwyr i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, a hefyd i gefnogi dysgu proffesiynol parhaus y tu hwnt i weithredu'r cwricwlwm.

Cefndir

Gan adeiladu ar adborth cadarnhaol OECD a ddywedodd fod ymrwymiad a phwyslais Cymru ar ddysgu proffesiynol yn eithriadol wrth gymharu â llawer o awdurdodaethau eraill OECD, ym mis Chwefror 2022, ailddatganodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ymrwymiad i wella ymhellach y cymorth a roddir i weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru.

Mae'r Hawl Genedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol wedi cael ei datblygu i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth dysgu proffesiynol o safon i'w galluogi i sicrhau safonau uchel i bawb a meithrin dyheadau uchelgeisiol. Bydd yr Hawl yn help i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau cenedlaethol

eraill, gan gynnwys helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymwreiddio tegwch, llesiant a'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol. Nod yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yw:

- helpu i wireddu ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg
- helpu i sicrhau bod pob gweithiwr addysg proffesiynol yn cael cyfle cyfartal i ymgymryd â dysgu proffesiynol o safon uchel
- helpu i egluro'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol sydd ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ymarferwyr addysg
- helpu ymarferwyr addysg i gael cymysgedd o brofiadau dysgu proffesiynol, gan gynnwys ymholi proffesiynol, cydweithredu, hyfforddiant a mentora.

Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn amlinellu'r cymorth y mae gan weithwyr addysg proffesiynol hawl iddo, ynghyd â'r ffyrdd gorau i ymarferwyr ddefnyddio eu Hawl. Bydd elfen dysgu proffesiynol yr Hawl yn ei gwneud yn haws i ymarferwyr gael gafael ar raglenni a phrofiadau dysgu proffesiynol. Bydd hefyd yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu dod o hyd yn rhwydd i ddarpariaeth dysgu proffesiynol sy'n eu galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol allweddol.

Tymor hir

Bydd y cynnig hwn yn helpu ymarferwyr i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, a hefyd yn cefnogi dysgu proffesiynol parhaus y tu hwnt i weithredu'r cwricwlwm yn yr hirdymor.

Bydd cynghorwyr neu arweinwyr y system, gan gynnwys y consortia addysg, yn helpu ysgolion a lleoliadau i gyflwyno'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys monitro cynnydd ysgolion a lleoliadau o ran gweithredu'r Hawl fel rhan o'u cynlluniau ehangach i ddatblygu'r ysgol. Gan adeiladu ar ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bydd gan ysgolion a lleoliadau hefyd rôl allweddol i'w chwarae i gofnodi effaith yr Hawl ar lefel yr ysgol neu'r lleoliad.

Er mwyn gwerthuso'r effaith gynnar, ystyrir gweithio gydag amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau i gadw golwg ar eu cynnydd o ran gweithredu'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Os bydd yr ysgolion a'r lleoliadau'n cytuno, bydd eu taith dysgu proffesiynol yn cael ei chofnodi fel cyfres o astudiaethau achos ar ffurf fideo. Yn y tymor hwy, byddai adolygiad ehangach o HMS – y bwriedir ei gynnal yn 2024 – yn asesu effeithiolrwydd y broses dysgu proffesiynol ac yn nodi gofynion hirdymor.

Ers lansio'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, mae cryn dipyn o gynnydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod darpariaeth dysgu proffesiynol achrededig, ardystiedig a chydabyddedig amrywiol iawn ar gael i ymarferwyr. Bydd yr Hawl yn atgyfnerthu'r dull hwn ymhellach, drwy waith parhaus i sefydlu dull gweithredu sy'n sicrhau ansawdd yr holl ddarpariaeth genedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod gennym ddarpariaeth gyson, ddilys a dibynadwy wrth symud ymlaen. Hefyd, bydd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn cael ei hehangu a'i churadu i sicrhau ei bod yn esblygu ac yn ymateb i anghenion ymarferwyr yn y dyfodol.

Atal

Mae gan y cynnig nodau hirdymor clir i hwyluso'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm a'r diwygiadau ADY, ac i roi sylw i degwch mewn addysg, gyda manteision cysylltiedig i ddisgyblion a'r holl ymarferwyr fel ei gilydd.

Bydd yr Hawl Genedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn cyfrannu at gyflawni amcanion canlynol y Rhaglen Lywodraethu:

- parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi
- cefnogi ysgolion ac athrawon i gyflawni ein Cwricwlwm i Gymru sy'n arwain y byd
- ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg
- gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

Integreiddio

Mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio – yn arbennig, “parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi” – gan ei fod yn ceisio mynd ati'n llwyddiannus i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, y Diwygiadau ADY a thegwch mewn addysg.

Bydd yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn allweddol i'r broses o gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol fel cyflwyno Cwricwlwm i Gymru a'r system anghenion dysgu ychwanegol, ac ymwreiddio tegwch, llesiant, a'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol.

Mae hefyd yn hwyluso diwygiadau addysg sy'n datblygu, drwy ddarparu Hawl genedlaethol i gefnogi dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd addysgol yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus o fis Medi 2022 ymlaen a thu hwnt.

Mae'r Hawl hefyd yn cyd-fynd â chynlluniau i ddatblygu ymhellach ddarpariaeth bresennol y consortia addysg ar gyfer dysgu proffesiynol, er mwyn cyd-fynd yn agosach â gofynion yr Hawl newydd.

Bydd ysgolion a lleoliadau hefyd yn cael cymorth i gysoni gofynion yr Hawl newydd â chynlluniau ehangach i ddatblygu'r ysgol, er mwyn monitro a chadw golwg ar y cynnydd wrth weithio tuag at ddyheadau'r Hawl.

Cydweithredu

Mae cydweithredu a datblygu ar y cyd wedi bod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Mae'r partneriaid addysg haen ganol canlynol wedi bod yn allweddol wrth ddiffinio egwyddorion yr Hawl:

- Undebau addysg
- Arweinwyr dysgu proffesiynol y consortia addysg

- Uwch dîm ac aelodau cyswllt yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- Arweinwyr sefydlu ar gyfer y consortia addysg
- Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (LIC)
- Grŵp dysgu proffesiynol a chydweithredu
- Grŵp arweinyddiaeth y consortia addysg
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Grŵp Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu
- Arweinwyr y Gymraeg ar gyfer y consortia addysg

Cymryd rhan

Fel rhan o'r gwaith datblygu, cafodd athrawon, cynorthwywyr addysgu ac arweinwyr ysgolion a lleoliadau ynghyd ag asiantaethau athrawon cyflenwi a llywodraethwyr hefyd eu cynnwys mewn cyfres o gyfarfodydd datblygu ar y cyd a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn help i ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru mewn perthynas â'r Hawl newydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'r consortia addysg i gael gwybod sut mae'r ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a sut bydd hyn yn cael ei fynegi.

Effaith

Mae datblygu proffesiwn addysg hynod effeithiol drwy ddarpariaeth dysgu proffesiynol o safon uchel gydol gyrfa yn allweddol i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru. Lansio'r Hawl yw cam pwysig nesaf ein taith dysgu proffesiynol ar draws y system.

Y brif ddadl dros y cynnig yw'r cyfle y byddai'n ei roi i ysgolion ganolbwyntio ar y diwygiadau addysg, yr hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw ac i bob ysgol ymwreiddio dysgu proffesiynol, a sicrhau bod yr holl weithlu addysg yn dod yn ymarferwyr gwybodus.

Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn bwriadu helpu lleoliadau i ddatblygu diwylliant o gydgyfrifoldeb dros ddysgu proffesiynol. Dylai hyn gynnwys yr holl ymarferwyr yn mynd ati i ymgymryd â dysgu proffesiynol, a dylai arweinwyr ysgolion gefnogi hynny. Mae adran rolau a chyfrifoldebau'r Hawl yn egluro sut dylai arweinwyr ysgolion ddangos y gefnogaeth honno. Mewn achosion lle mae unigolion yn teimlo nad ydynt yn cael eu Hawl Dysgu Proffesiynol, byddem yn disgwyl i hyn gael ei reoli drwy'r sianelau rheoli perfformiad arferol, gan ddechrau gyda sgwrs anffurfiol gyda'r rheolwr llinell.

Wrth i ysgolion a lleoliadau ddechrau cyflwyno'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid addysg i sicrhau bod ein gweledigaeth ar gyfer dysgu proffesiynol yn cael ei gwireddu. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r consortia addysg i sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn cael ei diweddarau, yn hwylus, yn gydlynol ac yn hawdd ei defnyddio. Mae

trafodaethau'n parhau ynghylch sut byddwn yn sicrhau bod yr holl ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn safonol.

Costau ac Arbedion

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â chyhoeddi'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol. Mae dros £38m o gyllid eisoes wedi cael ei glustnodi i gefnogi dysgu proffesiynol a datblygu ymarferwyr yn ystod 2022-23.

Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i'n partneriaid haen ganol, i ddarparu adnoddau ar gyfer y system er mwyn:

- datblygu adnoddau a rhaglenni cenedlaethol cyffredin ar gyfer dysgu proffesiynol y gellir eu defnyddio ar lefel ranbarthol neu leol
- galluogi'r consortia addysg, awdurdodau lleol, prifysgolion a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i gefnogi neu ddarparu dysgu proffesiynol ar lefel ranbarthol neu leol
- galluogi ysgolion i ymgymryd â dysgu proffesiynol drwy'r grant dysgu proffesiynol a Hyfforddiant Addysgol Mewn Swydd (HMS)

Mecanwaith

Ni fydd angen unrhyw ddeddfwriaeth ychwanegol i gyflawni'r cynnig hwn.

Adran 8. Casgliad

8.1 Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae cydweithredu a datblygu ar y cyd wedi bod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Bu swyddogion yn gweithio gyda'r partneriaid addysg haen ganol canlynol i ddiffinio egwyddorion yr Hawl.

- Undebau addysg
- Arweinwyr dysgu proffesiynol y consortia addysg
- Uwch dîm ac aelodau cyswllt yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- Arweinwyr sefydlu ar gyfer y consortia addysg
- Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (LIC)
- Grŵp dysgu proffesiynol a chydweithredu
- Grŵp arweinyddiaeth y consortia addysg
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Grŵp Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu
- Arweinwyr y Gymraeg ar gyfer y consortia addysg

Roedd y gwaith datblygu ar y cyd hefyd yn cynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu ac arweinwyr lleoliadau ac ysgolion, ynghyd ag asiantaethau athrawon cyflenwi a llywodraethwyr.

Roedd y dull hwn o weithredu yn sicrhau bod partneriaid ac ymarferwyr fel ei gilydd yn cael cyfle i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r blaenoriaethau cyffredin sy'n cyd-fynd â'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r consortia addysg ac awdurdodau lleol ar ôl y lansiad i sicrhau bod y ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn cael ei diweddarau, yn hwylus, yn gydlynol ac yn hawdd ei defnyddio.

8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?

Mae datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel, gyda dysgu proffesiynol yn gefn iddo, yn rhan ganolog o'r broses o wireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru, ac mae'n un o bedwar amcan galluogi ['Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'](#).

Bydd yr Hawl yn help i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, fel cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymwreiddio tegwch, llesiant a'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol.

Nod cyffredinol yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yw hyrwyddo'r cymorth y mae gan ymarferwyr addysg a chynghorwyr neu arweinwyr y system addysg hawl iddo, a sut dylent ymwneud â'r Hawl a'i hystyried fel unigolion.

Yr Hawl yw man cychwyn cam nesaf ein taith dysgu proffesiynol ar draws y system. Rydym am ddatblygu ymhellach weithwyr addysg proffesiynol sy'n pwysu a mesur,

yn barod i holi ac yn cydweithredu, a diwylliant o gydgyfrifoldeb mewn perthynas â dysgu proffesiynol.

Mae'r Hawl yn cyfleu ein gweledigaeth ar gyfer dysgu proffesiynol yng Nghymru, ac yn rhoi arweiniad ar rolau a chyfrifoldebau ar draws y system i gefnogi'r broses o'i rhoi ar waith.

Mae'r Hawl yn dod â'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgu proffesiynol ynghyd mewn un lle i'w gwneud yn haws i weithwyr addysg proffesiynol ddefnyddio a chael gafael ar gyfleoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi eu datblygiad parhaus.

Bydd yr Hawl yn helpu pob ymarferydd addysg i gyrraedd y safonau proffesiynol, ac yn sicrhau bod pob gweithiwr addysg proffesiynol yn cael cyfle cyfartal i ymgymryd â dysgu proffesiynol o safon, er mwyn sicrhau safonau uchel i bawb a meithrin dyheadau uchelgeisiol.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn galw am ddiwylliant mewn ysgolion a lleoliadau lle mae dysgu proffesiynol i bawb yn rhywbeth sy'n cael ei werthfawrogi a'i gynllunio er budd pob dysgwr, ac er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr. Bydd hyn yn help i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, fel cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymwreiddio tegwch, llesiant a'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw risgiau sy'n datblygu wrth i ni symud ymlaen i weithredu'r Hawl.

8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Wrth i ysgolion a lleoliadau ddechrau cyflwyno'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid addysg i sicrhau bod ein gweledigaeth ar gyfer dysgu proffesiynol yn cael ei gwireddu.

I gefnogi'r gwaith o gyflwyno a gweithredu'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a blaenoriaethau cenedlaethol eraill, rydym yn cynnig parhau ag un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer y tair blynedd academaidd nesaf. Bydd y diwrnod HMS ychwanegol yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymwreiddio tegwch, llesiant a'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol. Bydd y diwrnod HMS ychwanegol a gynigir hefyd yn rhoi amser a chyfle i weithwyr addysg proffesiynol ystyried eu disgwyliadau a'u Hawl Dysgu Proffesiynol, ac i bwysu a

mesur sut mae eu taith ddatblygu eu hunain yn helpu i gyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg ac, yn sgil hynny, yn gwella canlyniadau i ddysgwyr.

I gynorthwyo'r broses weithredu ymhellach, bydd deunyddiau enghreifftiol yn cael eu datblygu a'u darparu ar Hwb i roi cymorth pellach i ymarferwyr wrth iddynt ddechrau rhoi'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar waith yn eu lleoliadau eu hunain.